



Be Collectively Brilliant

Canfyddiadau o

Ein Sgwrs Fawr – Nyrsio yng Nghymru

ail ymgysylltiad ar-lein – adroddiad drafft

Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Awst 2023

G: clevertogether.com

E: osama.ammar@clevertogether.com

Ff: +44(0)208 3695 1251



Yr adroddiad-ar-un-dudalen

EIN MANDAD

Ym mis Awst 2023, lansiodd AaGIC yr ail ymgysylltiad ar-lein fel rhan o *Ein Sgwrs Fawr: Myrsio yng Nghymru*, i ddilysu'r negeseuon a'r casgliadau o'r ymgysylltu rhwng mis Mai a mis Mehefin, a glywodd syniadau'r gweithlu nyrsio ar sut i ddenu a chadw pobl a mynd i'r afael â'r heriau presennol a'r heriau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â darparu gofal nyrsio yng Nghymru. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r adroddiad blaenorol yn ceisio helpu AaGIC a llywio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithlu nyrsio strategol cyntaf ar gyfer Cymru, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024. Yn ogystal â gwrandao ar y gweithlu nyrsio, mae AaGIC wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r gweithlu ehangach a chleifion a'r cyhoedd.

Y SGWRS

Roedd yr ail ymgysylltiad ar-lein gyda *Ein Sgwrs Fawr* wedi denu bron i 1,650 o syniadau, sylwadau a phleidleisiau gan ychydig o dan 220 o bobl o'r gweithlu nyrsio a grŵp bach o bobl o'r gweithlu ehangach. O'r rhain, cymerodd 120 o gyfranogwyr ran yn y sgwrs gyntaf. Bu ymdrechion cyfathrebu yn llwyddiannus wrth ymgysylltu â grŵp cynrychioliadol ar draws meysydd nyrsio, ond unwaith eto ychydig yn llai llwyddiannus ar gyfer rhai bandiau, rolau a Byrddau Iechyd. Gwelsom ychydig o dan hanner nifer y cyfranogwyr yn y sgwrs fyrrach hon o'i gymharu ag ymgysylltiad Mai-Mehefin, ond mae hyn yn nodweddiadol o'r math hwn o ddull dilysu ac roedd y rhai a gymerodd ran yn dangos lefelau uwch o weithgarwch.

Yr hyn a glywsom gan y gweithlu nyrsio yn yr ail *Ein Sgwrs Fawr* oedd:

CANFYDDIADAU

- **BETH A GLYWSOM A OEDD YN GRYF** – fe wnaethom ofyn i'r cyfranogwyr beth oedd yn gryf, yn anghywir, neu ar goll o'r datganiadau strategol roedden ni wedi'u drafftio o'r sgwrs ar-lein gyntaf. Drwyddi draw, cafodd y rhain gefnogaeth unfrydol bron (96-100%), gyda chyfranogwyr yn pleidleisio mewn cytundeb â'r hyn a rannwyd.
- **MANYLION A GWEITHREDU** – mae manylion yn allweddol, ac roedd y sylwadau o dan y datganiadau hyn yn canolbwyntio'n gyffredinol ar (1) heriau a rhwystrau canfyddedig i'w gweithredu'n llwyddiannus; (2) beirniadaeth a rhwystredigaeth gyda strwythurau, systemau, prosesau neu seilwaith presennol; (3) pethau yr oedd cyfranogwyr yn eu hystyried ar goll neu angen rhoi sylw iddynt. Rydym yn disgwyl y bydd y staff nyrsio rydym wedi clywed ganddynt drwy'r ddwy sgwrs hynny yn disgwyl i'r cynllun gweithlu nyrsio strategol ddarparu lefel uchel o fanylder, eglurder a chyfeiriad clir wrth fynd i'r afael â'r materion mwyaf cyffredin y mae'r ddau ymgysylltiad hyn wedi tynnu sylw atynt.
- **Y THEMA 'GWERTHFAWROGWCH NI' DDERBYNIODD Y SYLW MWYAF** – roedd y cwestiynau am dâl a bandio, rolau a chyfrifoldebau, ac, i raddau, gwerth a chydabyddiaeth, unwaith eto ymhlith y pynciau mwyaf amlwg, gyda'r thema *Gwerthfawrogwch ni* i gyfrif am dros draean (42%) o'r holl gyfraniadau.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL

Mae'r gefnogaeth gref a gafwyd yn y datganiadau cryno yn awgrymu bod y gweithlu nyrsio wedi ymateb yn dda i'r disgrifiadau o'r hyn sydd ei angen arnynt i ddarparu gofal i bobl Cymru yn y dyfodol. Rydym yn argymhell bod y datganiadau cryno hyn yn parhau i gael eu defnyddio i gyfleu cynnydd i'r gweithlu nyrsio o ran llunio a chyflawni'r cynllun gweithlu nyrsio strategol. Bydd hyn yn helpu'r gweithlu nyrsio i ymgysylltu â'r cynllun gweithlu nyrsio strategol yn barhaus wrth iddo symud tuag at gael ei weithredu.



Tabl cynnwys

Yr adroddiad ar un dudalen [\[gweler yma\]](#)

Crynodeb gweithredol [\[gweler yma\]](#)

Cefndir a chyfranogiad [\[gweler yma\]](#)

Trosolwg a chrynodeb o'r canfyddiadau [\[gweler yma\]](#)

Adroddiad llawn o'r canfyddiadau [\[gweler yma\]](#)

Sut y gwnaethom ddadansoddi'r data [\[gweler yma\]](#)

Thema gyffredinol 'Gwerthfawrogwch ni' [\[gweler yma\]](#)

Thema gyffredinol 'Datblygwch ni', [\[gweler yma\]](#)

Thema gyffredinol 'Ymddiriedwch ynom ni' [\[gweler yma\]](#)

Thema gyffredinol 'Cefnogwch ni' [\[gweler yma\]](#)


Thema gyffredinol "Helpwch ni' [\[gweler yma\]](#)

Atodiad [\[gweler yma\]](#)

Ystadegau cyfranogiad ac arolygon porth [\[gweler yma\]](#)

Crynodeb gweithredol

Trosolwg o'r ymgysylltu a'r prif
ganfyddiadau

The background of the slide is a solid blue color with a repeating pattern of various geometric shapes in a lighter shade of blue. These shapes include circles, semi-circles, diamonds, and rectangles, arranged in a complex, interlocking manner.

Beth rydym yn ei wneud a pham

Beth rydym yn ei wneud a pham

Nod cyffredinol

Mae AaGIC yn datblygu cynllun gweithlu nyrsio strategol, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r heriau presennol a'r heriau a ragwelir yn y gweithlu nyrsio yng Nghymru. **Mae AaGIC wedi ymrwymo i ddatblygu'r cynllun gweithlu nyrsio strategol drwy fewnbwn ac ymgysylltu â'r gweithlu nyrsio a'r gweithlu ehangach.** Er mwyn i'r cynllun gweithlu nyrsio strategol gyflawni newid cadarnhaol, rhaid iddo daro tant â'r rheini y mae wedi'i gynllunio i'w helpu.

Bydd methodoleg Clever Together yn sicrhau bod y gweithlu nyrsio'n teimlo bod pobl yn gwrandao arnynt a'u bod yn cael eu grymuso i ddylanwadu a chyd-greu eu dyfodol. Bydd yn ein galluogi i wneud y canlynol:

- Dechrau sgwrs gyda'r gweithlu nyrsio cyfan yng Nghymru a fydd yn cael ei chynnal ar wefan bwrpasol lle gall pawb rannu, darllen, sgorio a rhoi sylwadau ar syniadau, profiadau a straeon pobl eraill,
- Darparu amgylchedd sy'n ddiogel yn seicolegol i'r gweithlu nyrsio rannu'r hyn maen nhw'n ei feddwl go iawn – mae llwyfan y sgwrs yn ddienw, yn cael ei hwyluso ac yn cael ei ddadansoddi'n annibynnol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a glywsom drwy ail ymgysylltiad ar-lein *Ein Sgwrs Fawr* â'r gweithlu nyrsio, gan geisio dilysu canfyddiadau a chasgliadau'r sgwrs gyntaf a sefydlu beth sy'n gryf, yn anghywir neu ar goll.




Ymgysylltu a chyfranogi

Sut gwnaethom ymgysylltu

Sgwrs ar-lein ddienw, ddiogel a chynhwysol i ddilysu ein themâu strategol sy'n dod i'r amlwg

- Ymunodd 220 o bobl o'r gweithlu nyrsio o bob cwr o Gymru â'r ail ymgysylltiad ar-lein ar gyfer Ein Sgwrs Fawr – Nyrsio yng Nghymru, sydd ar gael yn <https://ourbigconversation.com/nursinginwales>. Roedd y rhan fwyaf yn Nyrsys Cofrestredig, ond fel gyda'r sgwrs gyntaf, clywsom hefyd gan Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd, ac Ymarferwyr Cynorthwyol;
- Roedd y cyfnod cyn cofrestru ar gyfer y llwyfan digidol dwyieithog ar agor yn ystod Haf 2023 er mwyn caniatáu i unrhyw un ymuno ar ôl i'r sgwrs gyntaf ddod i ben. Roedd negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol, ac asedau cyfathrebu a gafodd eu rhaeadru i Fyrddau Iechyd a chyflogwyr eraill yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â'r gweithlu nyrsio ledled Cymru. Cafodd yr ymgysylltiad ar gyfryngau cymdeithasol AaGIC 81,575 o argraffiadau a 2,552 o ymgysylltiadau ar draws pob llwyfan.
- Gwelsom gyfranogwyr o bob band cyflog, maes nyrsio a'r prif Fyrddau Iechyd, yn ogystal â sefydliadau iechyd fel Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac eraill (gweler y manylion cyfranogi [yma](#));
- Cynhaliwyd y sgwrs am 3 wythnos, rhwng 8 a 31 Awst, ac roedd ar gael o unrhyw gyfrifiadur neu ddyfais symudol, 24 awr y dydd, er mwyn i bawb allu cymryd rhan, beth bynnag fo'u patrymau gwaith;
- Drwy gydol yr ymgysylltu, cyfrannodd y cyfranogwyr dros 1,650 o syniadau, sylwadau a phleidleisiau (~240 o gyfraniadau ysgrifenedig a ~1,420 o bleidleisiau), sy'n sail i ganfyddiadau'r adroddiad hwn.



Yr hyn a ofynnwyd gennym

Gwnaethom ofyn pum cwestiwn her i nyrsys, gyda'r un cwestiynau'n cael eu hailadrodd ar gyfer cyfranogwyr nad ydynt yn nyrsio mewn adran ar wahân. Roedd y rhain yn gofyn iddynt ddilysu canfyddiadau a chasgliadau ymgysylltiad *Ein Sgwrs Fawr*, a grynhowyd ar draws pum thema – *Gwerthfawrogi*, *Datblygu*, *Ymddiriedaeth*, *Cefnogaeth*, a *Helpu i ddarparu gofal effeithiol i gleifion* – ac ar ffurf 12 o 'egin syniadau', neu ddatganiadau strategol yn amlinellu'r prif geisiadau a ddaeth drwy ymgysylltu blaenorol.

Yr hyn a ofynnwyd gennym:

- **Gwerthfawrogwch ni** - Awgrymodd y gweithlu nyrsio y syniadau hyn i wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Beth sy'n gryf, yn anghywir neu ar goll?


- **Datblygwch ni** - Awgrymodd y gweithlu nyrsio y syniadau hyn ar gyfer eu datblygiad. Beth sy'n gryf, yn anghywir neu ar goll?

- **Ymddiriedwch ynom ni** – Roedd y gweithlu nyrsio wedi awgrymu'r syniadau hyn er mwyn iddynt deimlo yr ymddiriedir ynddynt i ddarparu gofal i gleifion. Beth sy'n gryf, yn anghywir neu ar goll?


- **Cefnogwch ni** - Awgrymodd y gweithlu nyrsio y syniadau hyn i'w cefnogi wrth ddarparu gofal i gleifion. Beth sy'n gryf, yn anghywir neu ar goll?

- **Helpwch ni i ddarparu gofal effeithiol i gleifion** - Awgrymodd y gweithlu nyrsio y syniadau hyn ynghylch adnoddau, offer a gofodau ffisegol i'w helpu i ddarparu gofal effeithiol i gleifion. Beth sy'n gryf, yn anghywir neu ar goll?

Cwestiynau her yn ôl nifer y syniadau*, sylwadau a phleidleisiau



* Yn cynnwys egin syniadau a ychwanegwyd at y sgwrs cyn ei lansio



Trosolwg a chrynodeb o'r
canfyddiadau

Gwerthfawrogwch ni Gwobrwyo'n deg, dathlu'n gyhoeddus, gwerthfawrogi cyfraniadau nyrsys, a hyrwyddo	• Roedd y gefnogaeth i'r <i>egin syniadau</i> yn gryf iawn (96-100%), gyda sylwadau'n ceisio egluro, ehangu a darparu manylion, ond yn gyffredinol yn cynnig cefnogaeth ymhlyg neu amlwg i'r datganiad strategol; • Roedd y drafodaeth yn y sylwadau'n canolbwyntio ar yr angen am adolygiad o'r Agenda ar gyfer Newid, cyflog teg, a rolau ymarfer uwch, y mae pob un ohonynt
Datblygwch ni Darparu cyllid ar gyfer astudio a datblygu, datblygu rolau a llwybrau newydd, a chynnig	• Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau yn unfrydol (100%), gydag adborth ysgrifenedig yn gyffredinol yn manylu ar fanylion unigol y datganiadau, ac yn ceisio egluro'r rhain neu gyflwyno heriau o ran eu gweithredu. Roedd y drafodaeth yn ymwneud ag amser wedi'i ddiogelu, gwahaniaethau rhanbarthol, neu awgrymiadau ynghylch llwybrau gyrfaedd, ymysg eraill; Cynigiodd y dorf nifer o awgrymiadau penodol (a rhai ohonynt wedi dod i'r amlwg yn y sgwrs gyntaf), megis cefnogaeth gyda datblygu sgiliau
Ymddiriedwch ynom ni Grymuso'r gweithlu, ymgynghori â nhw wrth wneud penderfyniadau, eu caniatáu i	• Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau yn unfrydol (100%), gyda sylwadau ysgrifenedig yn beirniadu'r ffordd y mae'r system yn gweithredu ar hyn o bryd, neu'n amlygu anawsterau wrth roi'r syniadau hyn ar waith; • Er hynny, roedd trafodaeth gyfyngedig yn codi'r materion ynghylch diffyg ymateb (digonol) i chwythu'r chwiban, adroddiad Datix, neu bryderon eraill y mae staff
Cefnogwch ni Darparu cyfleusterau swyddogaethol, mynediad at wasanaethau llesiant, gwell cydbwysedd bywyd-gwaith, ôl-	• Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau yn unfrydol(100%), gyda sylwadau yn beirniadu arferion presennol; • Clywsom alwadau am fwy o atebolrwydd, effeithiolrwydd, modelau rôl, a phresenoldeb gan arweinwyr; mynd i'r afael â phrinder lleoedd ac arferion egwyl; ac awgrymiadau neu gyfeiriadau ysgrifenedig at natur ymosodol cleifion; Roedd un
Helpwch ni i ddarparu gofal effeithiol i gleifion Darparu adnoddau, offer, seilwaith, systemau digidol	• Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau unwaith eto'n unfrydol (100%), gyda sylwadau'n ymwneud yn bennaf â'r angen brys i fynd i'r afael â'r materion sy'n cael eu targedu gan y datganiadau strategol hyn. • Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr angen am systemau gwybodaeth integredig, rhyng-gysylltiedig, effeithlon, symudol a hawdd eu defnyddio, a chofnodion cleifion hygyrch, yn ogystal â seilwaith ac adeiladau sy'n cynnig digon o

Crynodeb manwl o'r canfyddiadau

Dadansoddiad a chrynodeb o'r pynciau a'r themâu yn yr ymgysylltu

Sut y gwnaethom ddadansoddi'r data

Dadansoddiad thematig o'r gwaelod i fyny


Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, fe wnaethom ddadansoddi'n ansoddol dros **230 o gyfraniadau ysgrifenedig** (syniadau a sylwadau) a ddarparwyd fel adborth ar yr egin syniadau sy'n ffurfio'r pum prif thema a nodwyd drwy'r Sgwrs Fawr. Roedd y cyfranogwyr wedi bwrw **bron i 1,250 o bleidleisiau** i gefnogi neu feirniadu'r datganiadau i'w dilysu a'r awgrymiadau a'r sylwadau a wnaed gan eraill.

Roedd ein dull gweithredu ar gyfer y math hwn o ymgysylltu dilysu yn cynnwys nifer o gamau:

- Gwnaethom gategoreiddio pob cyfraniad ysgrifenedig yn ôl pa mor **gefnogol neu feirniadol** ydoedd o'r datganiad(au) strategol a oedd yn cael eu dilysu, neu a oedd yr awdur yn teimlo bod rhywbeth **ar goll neu'n anghywir**.
- Gwnaethom hefyd godio pob syniad yn thematig a rhoi sylwadau yn ôl y pwnc neu fater penodol a godwyd.
- Nid oedd rhai cyfraniadau ysgrifenedig yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r datganiadau strategol, ond roeddent yn cyflwyno **syniadau newydd** neu'n codi **materion newydd** – rydym wedi crynhoi'r pwyntiau hyn ar ddiwedd pob adran.

Mae'r siart ar y dde yn dangos pa brif thema (sy'n disgrifio'n fras yr egin syniadau y gofynnon ni i'r dorf eu dilysu) a gafodd y gyfran uchaf o ymgysylltu, ar sail nifer y cyfraniadau ysgrifenedig a'r pleidleisiau.

Trosolwg o'r themâu
yn ôl cyfran o gyfanswm y cyfraniadau*



* Cyfanswm y cyfraniadau yw cyfanswm y cyfraniadau ysgrifenedig (syniadau, sylwadau) a phleidleisiau

1. Gwerthfawrogwch ni

Crynodeb o'r adborth o dan y thema

Gwerthfawrogwch ni | Egin syniad I

Ein gwobr

Strwythur gwobrwyo teg a chyson sy'n ei gwneud yn werth ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb, yn annog pobl i ymuno, aros yn y GIG neu ddychwelyd i'r GIG, ac yn cydnabod yr amser ychwanegol rydym yn ei roi

Yr egin syniad hwn gafodd y lefel uchaf o ymgysylltu (pleidleisio a sylwadau) yn y sgwrs hon, a gafodd gefnogaeth unfrydol bron gan gyfranogwyr. Er bod y sylwadau'n cytuno â'r gosodiad yn gyffredinol, codwyd nifer o bwyntiau newydd ganddynt. Sef:

- **Beirniadaeth a diweddariad Agenda ar gyfer Newid (AfC)** – beirniadodd nifer o gyfranogwyr AfC, gan nodi ei fod yn hen ffasiwn, nad yw'n adlewyrchu sut mae'r rôl nyrsio wedi esblygu yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, ac nad yw'n gwobrwyo staff am y sgiliau a'r cyfrifoldebau ychwanegol y maent yn ymgymryd â nhw. Roedd consensws y dylid adolygu a diweddarau AfC.
- **Symud Band yn Gyflymach** – mae rhai cyfranogwyr yn credu y dylai'r rheini sy'n rhagori yn eu rolau ac yn ennill profiad allu symud i fyny'r bandiau cyflog yn gynt. Maent yn dadlau nad yw aros am yr amser penodedig yn deg, yn enwedig pan maent yn gweld cydweithwyr sydd â llai o lwyth gwaith a chyfrifoldeb yn ennill yr un cyflog. Ar yr un pryd, ychydig iawn o gymhellant ariannol sydd ar gyfer dyrchafiad i swydd uwch nyrs, gyda'r mesurau presennol ar waith.
- **Rolau a chyfrifoldebau** – nododd rhai o'r sylwadau fod rhai rolau a bandiau dros y blynyddoedd wedi ehangu i ysgwyddo llawer mwy o gyfrifoldebau heb i hyn gael ei adlewyrchu yn eu cyflog, eu disgrifiad swydd, neu, yn wir, yn cael ei ystyried mewn mesurau rheoli risg priodol. Dylai ehangu rolau a chyfrifoldebau arwain at gyfleoedd datblygu a chynnydd gwell a chyflogau uwch.



Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

103 / 99%
cefnogol

Cyfanswm y
gweithgarwch

1 / 1%
yn erbyn

15
o sylwadau

164
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y
sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Gwerthfawrogwch ni | Egin syniad II

Dathlu a gwerthfawrogi ein cyfraniadau at ofal iechyd,

Cydnabod pob un ohonom am ein gwaith yn darparu gofal ar y rheng flaen, addysg ac ymchwil. Adrodd am ein llwyddiannau er mwyn i gleifion a chymunedau glywed sut rydyn ni'n eu helpu.

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu ag ef, gyda nifer o sylwadau a oedd yn cynnig cytundeb ymhlyg, ond a oedd yn codi pwyntiau ychwanegol. Sef:

- Ffyrdd neilltuol o ddathlu – soniodd y cyfranogwyr am wobrau cenedlaethol – Gwobrau Rhagoriaeth CNO, Gwobr Nyrs y Flwyddyn y Coleg Nyrsio Brenhinol – a ffyrdd lleol neilltuol o ddathlu nyrsys (e.e. straeon staff yn cael eu hadrodd mewn cyfarfodydd Bwrdd a fforymau eraill). Ymhlith yr olaf, rhoddwyd enghraifft o ofod ar wal y ward a oedd yn casglu sylwadau a adawyd fel gwerthfawrogiad gan deuluoedd, a oedd, wrth iddo dyfu, yn meithrin perthynas â defnyddwyr y gwasanaeth. Awgrymodd rhai y dylid annog mwy o ddigwyddiadau dathlu i'r holl staff ledled Cymru, gyda nyrsio plant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cael ei nodi fel maes y mae angen yr ymyriad hwn arno.

Ehangu gwobr Nyrs y Flwyddyn - awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylid cydnabod nyrsio

- Anableddau Dysgu fel cangen annibynnol o nyrsio y tu allan i lechyd Meddwl, gyda'i gategori gwobr ei hun.

Gwerthfawrogiad a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi – nododd rhai eu bod yn teimlo diffyg gwerthfawrogiad cyffredinol o nyrsys sy'n gyson 'yn mynd y filltir ychwanegol' yn eu rôl, yn hytrach na diffyg gwobrau a dathliadau.

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r egin syniad*

75 / 100%
cefnogol

0 / 0%
yn erbyn

Cyfanswm y gweithgarwch

8
o sylwadau

92
o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Gwerthfawrogwch ni | Egin syniad III

Arloesi a hyrwyddo
rolau nyrsio a
gyrfaoedd nyrsio i
lenwi bylchau yn y

*Defnyddio ein sgiliau ar draws yr holl rolau nyrsio, creu rolau nyrsio newydd, a
hyrwyddo gyrfaoedd nyrsio i lenwi'r bylchau gweithlu.*

Cafodd y syniad ei gefnogi'n unfrydol bron gan gyfranogwyr a ymgysylltodd ag ef, gyda sylwadau'n ceisio cynnig cyfeiriad ar rai o'r camau nesaf o dan y syniad hwn. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddau bwnc:

- **Rolau ymarfer uwch** – cytunodd nifer y dylai nyrsys esblygu gyda'r oes a datblygu rolau ymarfer uwch ochr yn ochr â rolau nyrs ward a nyrs gymunedol, gan ddechrau o Fand 5. Roedd cytundeb cyffredinol bod y rôl nyrsio'n parhau i gael ei chamddeall, ei thanbrisiu a'i than-werthfawrogi, yn hytrach na'i gweld fel y rôl hynod sgiliedig a hanfodol ag ydyw.
- **Diogelu rolau nyrsio** – daeth cyfran fawr o'r drafodaeth yn y sylwadau yn ôl at yr angen i nyrsio ddiffinio ac amddiffyn ei swyddogaeth graidd, sy'n ymddangos ychydig yn aneglur ar hyn o bryd. Roedd llawer yn cytuno ag awgrym y dylai nyrsys, yn dilyn hyn, symud i ddileu rhannau aneffeithlon a dyblygol eu rolau a pheidio ag ysgwyddo cyfrifoldebau wedi'u newid nes eu bod yn glir bod y rhain yn cyd-fynd â'u pwrpas craidd.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

66 / 96%
cefnogol

Cyfanswm y
gweithgarwch

3 / 4%
yn erbyn

13
o sylwadau

116
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am
y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r
gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Gwerthfawrogwch ni: Syniadau eraill gan y dorf

Clywsom nifer o syniadau newydd gan y dorf, gan ymhelaethu ar y rhai a gynigiwyd i'w dilysu yma, neu dynnu sylw at faterion a oedd ar goll.

- **Cyflog teg** – syniad poblogaidd iawn, gyda chefnogaeth dros 40 o gyfranogwyr eraill, oedd y dylai rôl Band 5 fod ar gyfer nyrsys sydd newydd gofrestru (RNs) neu'r rhai sy'n dychwelyd i ymarfer am 1-2 flynedd. Gyda'r diffyg llwybrau gyrfa sydd eu hangen ar hyn o bryd, dylai'r rheini nad ydynt eisiau symud ymlaen i rolau rheoli Band 6 ond sydd â gwybodaeth a sgiliau gwych barhau i gael eu cydnabod ar y Band a'r lefel cyflog hwnnw. Yn ei dro, gallai prif nyrsys ward weithio fel Band 7 neu uwch, un yn glinigol ac un yn rheolaethol.
- **Dilysu staff yn emosiynol** – roedd syniad arall yr un mor boblogaidd, sy'n gorgyffwrdd ag egin syniad o dan y thema 'Cefnogwch ni', yn pwysleisio y dylai rheolwyr flaenoriaethu cysylltu â staff drwy 'wiriadau' rheolaidd ac anffurfiol neu drwy ddefnyddio goruchwyliaeth i ganfod sut maen nhw eisiau symud ymlaen, a'u galluogi.
- **Gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn Ddwieithog** – un awgrym poblogaidd oedd dathlu ac annog staff sy'n gallu darparu gofal iechyd y geg yn ddwyeithog.
- **Cefnogaeth i nyrsys hŷn** – roedd un awgrym yn gofyn am ddarparu mwy o gefnogaeth i nyrsys hŷn gyda TG a dysgu. Awgrymwyd bod llawer o nyrsys hŷn sydd ond â diwrnodau astudio i ddiweddarau eu hymarfer neu gysiau byr ac nid aseiniadau, a gall y rhain elwa o lwybr cefnogol.
- **Diogelu Amser – er mwyn sbarduno gwelliannau a dysgu** – yn rhannol yn gorgyffwrdd ag egin syniad o dan y thema 'Datblygwch ni', cytunodd llawer o gyfranogwyr fod angen i nyrsys a thimau amlbroffesiwn ehangach gael amser wedi'i neilltuo i ddod at ei gilydd i adolygu'r data a'r wybodaeth o ansawdd ar gyfer eu tîm a'u cleifion, blaenoriaethu gwelliannau, a rhannu gwersi, yn unol â'r Ddeddfwriaeth ar gyfer y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu – dyletswydd Ansawdd.
- **Recriwtio a chadw** – roedd y cyfranogwyr yn cytuno â syniad poblogaidd iawn bod angen canolbwyntio'n arbennig ar recriwtio, cadw a dod o hyd i atebion i'r argyfwng staffio presennol. Nodwn nad oedd y drafodaeth hon wedi datblygu ymhellach ac roedd canfyddiadau o'r sgwrs ar-lein gyntaf yn awgrymu y bydd y materion hyn yn cael eu gwella drwy weithredu'r holl atebion eraill a gynigir yma.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Syniadau	9 o syniadau newydd
Cyfanswm y gweithgarwch	39 o sylwadau
	224 o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

2. Datblygwch ni

Crynodeb o'r adborth o dan y thema

Datblygwch ni | Egin syniad I

Rhoi amser i ni gynnal a datblygu ein gwybodaeth a'n sgiliau

Ar gyfer ein gyrfaoedd cyfan, ac yn enwedig pan fyddwn yn symud i gam newydd mewn gyrfa, rhowch yr amser a'r gefnogaeth i ni gynnal a datblygu ein gwybodaeth a'n sgiliau. A'n helbu ni i ddatblvau ein sailiau Cymraea.

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a ymgysylltodd ag ef, gan gynnwys yn y sylwadau, a oedd yn cynnig rhagor o fanylion:

- **Amser wedi'i Ddiogelu** – nododd cyfranogwyr fod gan broffesiynau ar wahân i nyrsio gynlluniau swyddi sy'n cynnwys amser datblygu a gweinyddol wedi'i ddiogelu, sy'n gymhariaeth anffafriol a ddaeth i'r amlwg hefyd yn y sgwrs ar-lein gyntaf. Roeddent yn cytuno y dylai nyrsio fabwysiadu dull tebyg i ddiogelu amser ar gyfer datblygu sgiliau a gwybodaeth, hyfforddiant gorfodol, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), gweithgareddau grŵp gyda chymheiriaid (e.e. byrddau cyngori), neu ar gyfer cymryd rhan mewn dysgu anffurfiol a dysgu drwy brofiad.
- **Hyfforddiant Craidd wedi'i integreiddio i amserlenni gwaith** – codwyd hyfforddiant craidd yn benodol, gyda chais i gyflogwyr ddyrannu nifer penodol o oriau i gwblhau hyfforddiant gorfodol neu Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Proffesiynol (PADR), gyda chydymffurfio gwael yn cael ei reoli'n unol â hynny.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

43 / 100%
cefnogol

0 / 0%
yn erbyn

Cyfanswm y
gweithgarwch

5
o sylwadau

48
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Datblygwch ni | Egin syniad II

Cael gwared
ar y
rhwystrau
i'n dysgu a'n

*Helpwch ni gyda chyllid ac adnoddau ar gyfer ein dysgu a chynyddu cyfleoedd ar gyfer
secondiad neu gylchdro.*

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a ymgysylltodd ag ef, gan gynnwys cefnogaeth amodol a roddwyd yn y sylwadau. Yno, cyfeiriodd cyfranogwyr at amrywiaeth o faterion yn ymwneud â dysgu a datblygu, gan gynnwys yr angen am gylchdroadau gwirfoddol, mynd i'r afael â gwahaniaethau rhanbarthol, lleihau costau addysg, ehangu sgiliau nyrsio, a darparu cymwysterau clinigol mwy arbenigol.

- **Heriau yn System GIG Cymru** – roedd y sylw mwyaf poblogaidd yn mynegi pryderon ynghylch cymhlethdod a natur feichus y broses recriwtio yn GIG Cymru, gan awgrymu y gallai symud i GIG Cymru Gyfan ei gwneud yn haws i staff newid rolau yng Nghymru ar gyfer datblygiad proffesiynol a phersonol.
Cylchdroadau Gwirfoddol – pwysleisiodd rhai y dylai cylchdroi fod yn wirfoddol, nid yn orfodol. **Gwahaniaethau Rhanbarthol** – soniodd rhai am y gwahaniaethau rhanbarthol mewn cyfleoedd, gyda dewisiadau cyfyngedig yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â'r De, gan awgrymu camau gweithredu wedi'u teilwra i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau.
- **Costau Darparwyr Addysg Uwch** – nodwyd bod y costau uchel sy'n gysylltiedig â darparwyr addysg uwch, sef busnesau sydd â monopoli ar lawer o'r addysg, yn un o'r rhwystrau i ddysgu a datblygu.
Rhewi Absenoldeb Astudio - mae rhai byrddau iechyd yn rhewi absenoldeb astudio oherwydd pwysau ariannol, gan ei gwneud yn anodd i weithwyr fynd ar drywydd cyfleoedd addysgol.
- **Ehangu Sgiliau Nyrsio a chynnydd academiaidd** – clywsom alwadau am ehangu sgiliau nyrsio, cyrsiau sgiliau ymarferol (tebyg i'r hen ENB/WNB), neu gymwysterau clinigol mewn arbenigeddau amrywiol, a allai i gyd gynnig dewis amgen yn lle cynigion MSc. Soniwyd hefyd am ddiffyg cymorth dilyniant academiaidd ar gyfer ôl-gymhwysyo nyrsys – fel cymorth addysg MSc.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

49 / 100%
cefnogol

0 / 0%
yn erbyn

Cyfanswm y
gweithgarwch

12
o sylwadau

61
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw
am y syniad ei hun; mae'n cynnwys
ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt
yn nyrsio);*

Datblygwch ni | Egin syniad III

Llwybrau gyrfa sy'n gweithio i bawb

Darparu llwybrau hyblyg (nid llwybrau academiaidd neu reoli yn unig) ar gyfer camu ymlaen mewn gyrfa. Llenwi'r bylchau mewn llwybrau gyrfa ar gyfer rhai meysydd nyrsio neu rolau nyrsio.

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a ymgysylltodd ag ef, er mai ychydig iawn o sylwadau a welwyd.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- **Llwybrau Gyrfa Anacademaidd** – nododd rhai cyfranogwyr efallai nad yw rhai unigolion eisiau dilyn llwybrau academiaidd ond y gallent barhau i wneud cyfraniadau gwerthfawr, megis mewn meysydd fel addysgu drwy ddarparu addysg a hyfforddiant clinigol.
- **Cadw Rolau Clinigol** – roedd un person yn cytuno bod y strwythur a'r cynnydd presennol yn aml yn dargyfeirio staff i ffwrdd o feysydd clinigol a gwaith rheng flaen a bod modelau rôl ar gyfer rolau nyrsio arbenigol yn cael eu blaenoriaethu ar draul rolau prif nyrsys ward, gyda'r olaf yn cael ei danbriso.
- **Cynnal Sgiliau Clinigol** – roedd nifer o gyfranogwyr yn eiriol dros opsiynau datblygu gyrfa a oedd yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnal eu sgiliau clinigol, gan ddangos awydd am hyblygrwydd wrth ddatblygu gyrfa heb golli eu harbenigedd clinigol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

44 / 100%
cefnogol

0 / 0%
yn erbyn

Cyfanswm y
gweithgarwch

3
o sylwadau

49
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Datblygwch ni: Syniadau eraill gan y dorf

Clywsom nifer o syniadau newydd gan y dorf, gan ymhelaethu ar y rhai a gynigiwyd i'w dilysu yma, neu dynnu sylw at faterion a oedd ar goll. Roedd y rhain yn ymwneud â gwella dilyniant gyrfa, datblygu staff, creu amgylcheddau cefnogol i nyrsys yng Nghymru, mynd i'r afael â materion fel sgiliau iaith, nyrsys wedi ymddeol, rolau newydd fel Nyrsys Cyswllt, a strwythurau datblygu staff.

- **Ymarferwyr Cynorthwyol Band 4** – roedd un o'r syniadau mwyaf poblogaidd yn galw am hwyluso datblygiad Ymarferwyr Cynorthwyol Band 4 i Fand 5 (mewn rolau tebyg i brentisiaid), gan barhau i gefnogi a datblygu'r rheini sy'n dymuno aros ar Fand 4. Sicrhau dilyniant gyrfa o fewn Band 4 i atal bylchau yn y gweithlu. Awgrymwyd mabwysiadu dull tebyg i rôl Nyrsys Cyswllt Lloegr, sy'n darparu llwybr heb radd i Fand 5, hefyd, mewn sylwadau a syniadau eraill.
- **Ymddeol a dychwelyd** – syniad poblogaidd arall, a glywsom hefyd drwy'r ymgysylltu cyntaf ar-lein, oedd cynnig mwy o gymorth i nyrsys sydd wedi ymddeol, gan eu galluogi i ddychwelyd i'r gweithle a rhannu gwybodaeth heb gael eu hisraddio. Awgrymwyd creu rôl nyrsys gwaddol, tebyg i fydwagedd gwaddol yn Lloegr. Roedd y sylwadau'n nodi na ddylai rhaglenni ymddeol a dychwelyd lesteirio datblygiad gyrfa pobl eraill.
- **Cefnogaeth i ddatblygu sgiliau Cymraeg** – byddai ffocws ar ddatblygu sgiliau Cymraeg ymysg staff yn pwysleisio pwysigrwydd gofal dwyieithog, awgrymodd cyfranogwyr, gyda chyflogwyr angen annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad naturiol a deall ei harwyddocâd o ran hunaniaeth a gofal o ansawdd uchel.
- **Datblygu i ffwrdd o'r byd academiaidd** – roedd syniad poblogaidd arall yn awgrymu darparu cyfleoedd i nyrsys o bob band eistedd ar grwpiau cenedlaethol, gan eu galluogi i ddefnyddio eu harbenigedd a datblygu drwy rwydweithio.
- **Rhaglen datblygu Rheolwyr Wardiau** – creu rhaglen ddatblygu ar gyfer Band 6 i Fand 7, gyda'r nod o baratoi, datblygu ac annog rheolwyr wardiau ac arweinwyr y dyfodol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Syniadau	11 o syniadau newydd
Cyfanswm y gweithgarwch	12 o sylwadau
	80 o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

3. Ymddiriedwch ynom ni

Crynodeb o'r adborth o dan y thema

Ymddiriedwch ynom ni | Egin syniad I

Cynnwys ni yn y broses o wneud penderfyniadau a

Gwerthfawrogi ein harbenigedd fel *tîm*
rhan o'r gwaith o ddylunio gwasanaeth

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu ag ef, gyda dim ond ychydig o sylwadau a oedd yn cynnig cytundeb ymhlyg, ond a oedd yn codi pwyntiau ychwanegol. Y rhain oedd:

- Arbenigedd Staff Rheng Flaen – pwysleisiodd un cyfranogwr fod gan staff rheng flaen wybodaeth werthfawr am wir anghenion cleifion a gwasanaethau. Nodwyd bod rhoi ymreolaeth i staff gynllunio a gwneud newidiadau yn gallu cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ganlyniadau cleifion a morâl staff.
- Heriau gyda Rheolwyr Anghlinigol – beirniadodd un cyfranogwr y system bresennol lle mae rheolwyr anghlinigol yn dylunio ac yn gweithredu newidiadau heb ddeall y goblygiadau clinigol yn llawn. Roeddent yn rhoi enghraifft o Fwrdd Iechyd yn gwneud y penderfyniad i gau gwelyau heb ystyried yr effaith ar lif cleifion a dangos diffyg atebolrwydd am y penderfyniadau hyn pan oedd llif cleifion yn gwaethygu.

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r egin syniad*	39 / 100% cefnogol
	0 / 0% yn erbyn
Cyfanswm y gweithgarwch	3 o sylwadau
	40 o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

* yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);

Ymddiriedwch ynom ni | Egin syniad II

Gwneud i ni
deimlo'n ddiogel i
ddweud ein

*Dylid ymddiried yn ein harbenigedd a h profiad, felly pan fyddwn yn dweud ein dweud,
dvlwm deimlo'n ddioael a awv bod v bvddwn vn cael ein clwedd.*

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu ag ef, gyda rhai sylwadau a oedd yn mynegi rhai pryderon ac yn cynnig cefnogaeth amodol. Gwnaeth cyfranogwyr nifer o sylwadau yn ymhelaethu ar y syniad, megis:

- Ymatebion priodol i bryderon a chwythu'r chwiban – galwodd sawl cyfranogwr am ddiwylliant mwy cefnogol ac ymatebol mewn lleoliadau gofal iechyd, lle mae pryderon yn cael sylw proffesiynol a phriodol. Nodwyd ganddynt fod y broses o chwythu'r chwiban yn aml yn aneffeithiol, gan arwain at arferion anniogel a chmau disgyblu a ailadroddir ar gyfer yr un problemau. Mae canfyddiad nad oes neb yn clywed nac yn ymateb yn effeithiol i bryderon, hyd yn oed ar ôl ymdrechion i uwchgyfeirio ac adrodd drwy amrywiol sianeli sydd ar gael.
- Defnyddio 'Diwylliant Dim Bai' – dylid defnyddio 'diwylliant dim bai' yn well er mwyn annog mwy o bobl i fynegi eu pryderon.
- Ymddiried yn Lleisiau Nyrsys – mae angen ymddiried yn lleisiau nyrsys a rhoi iddynt yr un pwys ag a roddir i farn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a rheolwyr yn GIG Cymru.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

42 / 100%
cefnogol

Cyfanswm y
gweithgarwch

0 / 0%
yn erbyn

6
o sylwadau

50
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw
am y syniad ei hun; mae'n cynnwys
ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt
yn nyrsio);*

Ymddiriedwch ynom ni | Egin syniad III

Atebion teg i
weithio hyblyg
sy'n ymddiried
ynom i

*Ymddiried ynom ni i weithio mewn ffyrdd hyblyg sy'n blaenoriaethu anghenion ein
cleifion a'n cydweithwyr. Rydyn ni eisiau rhoi cynnig ar bethau fel hunan-amserlennu*

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a ymgysylltodd ag ef, gyda dim ond un sylwad. Rhoddodd sylw i'r anhawster wrth weithredu'r syniad hwn, o ystyried yr anghenion cyfreithiol o ran cymhareb a staffio diogel, er bod yr awdur yn cyfaddef y gallai weithio'n dda ar gyfer gyrfaedd mewn nyrsio gyda phatrymau gweithio neu rolau 9-5.

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

29 / 100%
cefnogol

Cyfanswm y
gweithgarwch

0 / 0%
yn erbyn

1
o sylwadau

29
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw
am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu
â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Ymddiriedwch ynom ni: Syniadau eraill gan y dorf

Clywsom nifer o syniadau newydd gan y dorf, gan ymhelaethu ar y rhai a gynigiwyd i'w dilysu yma, neu dynnu sylw at faterion a oedd ar goll.

- **Adborth** – syniad bychan, ond â chefnogaeth gref, a oedd yn gorgyffwrdd mewn rhannau ag un o'r datganiadau o dan y thema a gynigiwyd oedd y dylid bob amser rhoi adborth i'r pryderon, y syniadau a'r materion y mae'r staff wedi'u mynegi. Nododd cyfranogwr arall y diffyg ymateb systematig o adroddiadau Datix, gan ddisgrifio'r broses fel 'digalon' a 'gwastraff amser'.
- **Datblygiadau ym mhrofiad cleifion i lywio darpariaeth gwasanaethau** – roedd syniad arall yn galw am ffocws ar gynnwys cleifion yn eu profiad gan ddefnyddio Gwasanaethau'r GIG (Hywel Dda) ar draws pob maes nyrsio, cleifion mewnol a lleoliadau cymunedol, canfod bylchau, sbarduno newid, profi pa newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith, ac ati. Mae nyrsys ymroddedig sy'n gweithio drwy ymchwil gweithredol yn cael cyfle i gysylltu â chleifion, eu gofalwyr, a gwasanaethau ar hyd eu taith gyfan yn y GIG.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Syniadau

3

Syniadau newydd

Cyfanswm y
gweithgarwch

1

o sylwadau

23

o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y
syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r
gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

4. Cefnogwch ni

Crynodeb o'r adborth o dan y thema

Cefnogwch ni | Egin syniad I

Yr amser i gael ôl-drafodaeth a mynediad at

Rhowch flaenoriaeth i'n lles drwy wrando arnon ni a rhoi cyfle i ni gael ôl-drafodaeth ar ddechrau a diwedd shift. Helpwch ni i gael gafael ar gymorth lles pan fydd ei angen arnom. Mae angen help arnom i reoli ymddygiad ymosodol neu drais gan gleifion.

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu ag ef, gydag ychydig o sylwadau a oedd yn awgrymu addasu'r iaith, neu a fynegodd bwyntiau ychwanegol. Roedd yr olaf yn pwysleisio'r angen am well cydnabyddiaeth o'r baich emosiynol a wynebwr gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, pwysigrwydd symleiddio a gwella systemau cymorth, a chreu amgylchedd gwaith lle mae lles yn cael ei flaenoriaethu a lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i reoli

- **Cyfeirio at ymddygiad ymosodol cleifion** – roedd nifer o gyfranogwyr yn anghytuno â'r cyfeiriad at ymddygiad ymosodol a thrais gan gleifion, gan awgrymu **geiriad mwy cadarnhaol**, fel "*Mae angen gwell cymorth systemig, yn ogystal â gofal seicolegol, ar gyfer nyrsys sy'n wynebu ymddygiad ymosodol clinigol, trais neu ymddygiad heriol*". Roedd sylwadau eraill yn tynnu sylw at oruchwyliaeth glinigol gyda gweithwyr proffesiynol hyfforddedig fel rhywbeth amhrisiadwy i staff, gan arwain at ofal mwy effeithiol a thimau â gwell arfau i ddelio ag ymddygiad ymosodol a rhwystredigaeth. Roedd eraill yn cynnig y dylid symleiddio systemau cymorth fel Datix i ddarparu cymorth mwy effeithiol i staff sy'n wynebu ymddygiad gwrthwynebus. Gallai hyn gynnwys dysgu gan adrannau lle mae staff yn fodlon â'r gefnogaeth a'r adborth a gafwyd.
- **Mwy o Gymhlethdod mewn Sefyllfaoedd Clinigol a Chymdeithasol** – awgrymodd un cyfranogwr bod cyflyrau eithafol, cleifion sâl iawn, a sefyllfaoedd cymdeithasol anhrefnus wedi mynd yn fwy dwys, gan ei gwneud yn heriol yn emosiynol i staff clinigol. Mae ymdeimlad nad yw'r system gofal iechyd yn cydnabod nac yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r baich hwn.
- **Aneffeithiolrwydd Gwasanaethau Lles** – mynegodd un arall rwystredigaeth ynghylch aneffeithiolrwydd posterï ac arolygon am y gwasanaethau lles sydd ar gael, sy'n awgrymu nad ydynt yn troi'n gamau gweithredu.

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r egin syniad*	35 / 100% cefnogol
	0 / 0% yn erbyn
Cyfanswm y gweithgarwch	7 o sylwadau
	38 o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Cefnogwch ni | Egin syniad II

Cyfleusterau ac ystafelloedd

Sicrhau bod gennym yr hanfodion i gymryd seibiant effeithiol yn ystod ein shifftiau, gan gynnwys

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu ag ef, gyda nifer o sylwadau a oedd yn cynnig cytundeb ymhlyg, ond a oedd yn codi pwyntiau ychwanegol.

- **Arferion Egwyl Cadarnhaol** – roedd sawl sylw yn tynnu sylw at y rôl y mae arferion egwyl cadarnhaol (hybu amser sgrin ac egwyliau rheolaidd, darparu ystafelloedd ymneilltuo a newid, mynediad at amwynderau, neu'r opsiwn i fynd am dro yn ystod amser egwyl) yn ei chwarae yn y teimlad o gael eich gwerthfawrogi a'ch cefnogi.
- **Heriau** – roedd rhai yn codi'r pwynt bod gan staff, mewn rhai lleoliadau (e.e. ysbytai) opsiynau cyfyngedig ar gyfer egwyliau, ac yn delio â materion fel ffreuturau gorlawn, teimlad eu bod 'ar ddyletswydd' yn ystod egwyliau, neu lefydd annigonol ar gyfer egwyliau.
- **Ystyriaeth i Weithwyr Cymunedol** – pwynt arall a godwyd gan gyfranogwyr oedd pwysigrwydd ystyried gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn y gymuned neu'n ymweld â chleifion yn eu cartrefi. Dylid mynd i'r afael â rheoli egwyliau a mynediad at gyfleusterau ar gyfer y rheini sydd y tu allan i leoliadau ysbyty traddodiadol.

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

42 / 100%
cefnogol

0 / 0%
yn erbyn

Cyfanswm y
gweithgarwch

12
o sylwadau

56
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw
am y syniad ei hun; mae'n cynnwys
ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt
yn nyrsio);*

Cefnogwch ni | Egin syniad III

Arweinwyr a rheolwyr sy'n weladwy, yn

Rydyn ni eisiau gweld ein harweinwyr a'n rheolwyr yn gweithio ochr yn ochr â ni. Rydym ni eisiau i adborth fynd y ddwy ffordd. Rydym ni eisiau cael ein trin â charedigrwydd a thosturi nan fuddwn yn aofn am help hysbysu'r ddaethol a dathlu'n iad

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu ag ef, gydag nifer o sylwadau yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch y sefyllfa bresennol, neu'n mynegi pwyntiau

- Buddsoddi mewn Arweinyddiaeth – er bod rhai wedi galw am fuddsoddi mewn arweinwyr a datblygu eu sgiliau mewn arweinyddiaeth dosturiol a newid diwylliant, roedd eraill wedi mynegi eu rhwystredigaethau ac wedi siarad yn erbyn buddsoddi mwy o adnoddau mewn strwythur arweinyddiaeth sydd â gormod o bobl ar y brig, yn llawn nepotistiaeth, yn anatebol, ac sy'n rhoi pobl nad ydynt wedi'u paratoi'n iawn mewn sefyllfa gwneud penderfyniadau.
- Rheolwyr yn Arwain drwy Esiampyl – tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at y ffaith mai rheolwyr effeithiol, yn ôl rhai sylwebyddion, yw'r rhai sy'n cymryd rhan weithredol yn y gwaith ac sy'n barod i wneud yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan eu gweithlu. Cytunwyd bod arweinyddiaeth weladwy a thosturiol yn allweddol ar gyfer morâl staff a mynd i'r afael â phroblemau go iawn, gosod safonau uchel yn y gweithle, meithrin gwaith tîm, a gwella'r amgylchedd gwaith.
- Galwad am Atebolrwydd a Chymhwysedd – mae yna alw am fwy o atebolrwydd ymysg arweinwyr a rheolwyr, gyda rhai'n awgrymu bod arweinwyr anghymwys yn aml yn cael eu dyrchafu neu eu symud yn ochrol heb adolygiadau perfformiad priodol. Mae galw hefyd ar arweinwyr nad ydynt yn nyrsio i fod yn fwy atebol a chael gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu staff nyrsio.
- Awydd am Newid Effeithiol - mae'r rhai sy'n gwneud sylwadau yn mynegi'r awydd i arweinwyr a rheolwyr wneud newidiadau cadarnhaol a chael effaith ystyrlon ar yr amgylchedd gwaith. Maent yn cwestiynu effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth bresennol wrth fynd i'r afael â materion rheng flaen.

Roedd syniad ar wahân, sy'n cael ei gefnogi'n gryf, yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth dosturiol, meithrin perthnasoedd cefnogol, cael sgysiau agored a gonest, bod yn hyblyg, a chynnig adborth.

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r egin syniad*	44 / 100% cefnogol
	0 / 0% yn erbyn
Cyfanswm y gweithgarwch	8 o sylwadau
	54 o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Cefnogwch ni: Syniadau eraill gan y dorf

Clywsom nifer o syniadau newydd gan y dorf, gan ymhelaethu ar y rhai a gynigiwyd i'w dilysu yma, neu dynnu sylw at faterion a oedd ar goll.

- “Gwarchodwch ni” – roedd y syniad newydd a gefnogwyd fwyaf o dan y thema hon yn galw am roi ystyriaeth arbennig, fel rhan o'r cynllunio strategol, i'r hyn y dylai cyflogwyr fod yn ei wneud i ddiogelu nyrsys rhag rhai o ganlyniadau posibl gyrfa nyrsio – straen, lludded, aflonyddu (wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan ddefnyddwyr gwasanaeth neu aelodau o'r teulu), trais, ac yn ystod prosesau ffurfiol. Gyda'r olaf, roedd y syniad yn galw am weithredu diwylliant 'Cyfiawn' a dulliau adferol, darparu cymorth wedi'i neilltuo i staff yn ystod cwestau, dileu'r gwaharddiad awtomatig o ddyletswyddau clinigol yn dilyn digwyddiadau diogelwch cleifion/digwyddiadau diogelu, sicrhau cefnogaeth ddigonol i unrhyw un sy'n destun ymchwiliadau Adnoddau Dynol, ac amddiffyn rhag cwynion mynych.
- **Cymorth AD** – clywsom alwadau am i dimau AD sydd wedi'u staffio a'u hyfforddi'n ddigonol gefnogi rheolwyr i ddilyn prosesau'n gywir ac mewn ffordd dosturiol wrth ddelio â materion staffio.
- **Hyfforddiant gwytnwch**– roedd un syniad yn awgrymu bod rhai Byrddau Iechyd yn cynnig hyfforddiant gwytnwch i nyrsys fel
- esgus wedyn i'w trin yn wael neu feio'r unigolyn yn oddefol.
- **Cefnogaeth i fyfyrwyr nyrsio** – gofynnodd un arall i'r gefnogaeth gael ei hymestyn i fyfyrwyr nyrsio sy'n delio ag angharedigrwydd, bwlio ac aflonyddu yn ystod lleoliadau clinigol.
- **Cysylltiadau Trafnidiaeth** – roedd un syniad a ddaeth yn hwyr i'r sgwrs yn cynnig y dylid gwella cysylltiadau trafndiaeth lleol â'r byrddau iechyd ar draws y wlad, gan nodi'r diffyg mannau parcio, a dechrau'n hwyr (7-8am) ar gyfer llinellau lleol. Awgrymwyd darparu bysiau gwennol rhwng gwahanol safleoedd Byrddau Iechyd hefyd. Er y byddai hyn o fudd i bawb, byddai'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer denu nyrsys o'r tu allan i Gymru.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Syniadau	7
	Syniadau newydd
Cyfanswm y gweithgarwch	11
	o sylwadau
	88
	o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

5. Helpwch ni i ddarparu gofal effeithiol i gleifion

Crynodeb o'r adborth o dan y thema

Helpwch ni... | Egin syniad I

Gwella ein heffeithlonrwydd a'n diogelwch drwy systemau gwybodaeth sy'n

Rydym am gael cofrestru untro a systemau sy'n siarad â'i gilydd er mwyn i ni allu gwneud llai o waith gweinyddol, rhoi mwy o amser i ofalu, ac osgoi rhai risgiau diogelwch cleifion a achosir gan fylchau mewn gwybodaeth.

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a ymgysylltodd ag ef, er ei fod wedi cynhyrchu'r ail nifer fwyaf o sylwadau. Roedd y rhain yn cynnig cymorth ymhlyg ac amlwg, gan godi rhai pwyntiau ychwanegol ar yr un pryd.

- Yn gyffredinol, roedd y sylwadau'n ailddatgan pwysigrwydd cael systemau gwybodaeth integredig, rhyng-gysylltiedig, effeithlon, symudol a hawdd eu defnyddio tuag at wella gofal cleifion, lleihau beichiau gweinyddol ar nyrsys, a gwella cyfathrebu ar draws gwahanol sectorau gofal iechyd.
- **Cofnodion cleifion** – soniodd nifer o gyfranogwyr am yr angen am un cofnod cynhwysfawr i gleifion sy'n rhychwantu gwahanol sectorau gofal iechyd, gan gynnwys gofal sylfaenol ac eilaidd. Ar ben hynny, roedd sylwadau'n awgrymu y dylid rhoi mynediad i gleifion at eu cofnodion iechyd eu hunain, gan eu grymuso i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd a gwella bodlonrwydd.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

45 / 100%
cefnogol

Cyfanswm y
gweithgarwch

0 / 0%
yn erbyn

13
o sylwadau

80
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Helpwch ni... | Egin syniad II

Lleihau heriau
dyddiol drwy roi
digon o le i ni a'r
offer diweddaraf

Mae angen dyfeisiau mwy modern arnom sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngwyd a wifi effeithiol i ddysgu, cydweithio, ymchwilio, a darparu gwasanaethau ar-lein. Mae angen digon o le arnom i bawb eistedd a chael cyfarfodydd cyfrinachol pan fyddwn yn gweithio

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a ymgysylltodd ag ef, gyda dim ond cwpl o sylwadau.

Nododd un sylw brinder cyflenwad presennol ac offer TG a meddygol diffygiol, gan fynegi eu rhwystredigaeth bod hyn yn cael ei ganiatáu mewn adran achosion brys brysur.

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r
egin syniad*

36 / 100%
cefnogol

0 / 0%
yn erbyn

Cyfanswm y
gweithgarwch

2
o sylwadau

37
o bleidleisiau (gan
gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nysio);*

Helpwch ni... | Egin syniad III

Buddsoddi mewn adeiladau a mannau ar gyfer

Mae angen adeiladau a mannau arnom sy'n fwy modern, croesawgar a diogel i'n cleifion.

Cefnogwyd y syniad yn unfrydol gan gyfranogwyr a oedd wedi ymgysylltu ag ef, gan ddenu nifer o sylwadau a oedd yn cytuno ag ef i raddau helaeth, tra'n cynnig rhai awgrymiadau eu hunain.

Yn gyffredinol, roedd y rhain yn pwysleisio pwysigrwydd buddsoddi mewn adeiladau a mannau gofal iechyd modern, diogel a chroesawgar i wella profiadau gofal cleifion a darparu amgylcheddau addas ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Roedd un syniad yn argymhell rhaglen adeiladu ysbytai newydd – tebyg i Loegr – gyda'r ddadl nad yw'r seilwaith presennol yn addas ar gyfer gofal iechyd modern. Soniodd nifer o gyfranogwyr am y diffyg mannau presennol sy'n cynnig ystafelloedd sengl ar gyfer preifatrwydd, urddas, atal heintiau, gan nad oes gennym ystafelloedd storio a llieiniau digonol, mannau ar gyfer profi a dadansoddi pwynt gofal, neu ystafelloedd lle gellir cynnal hyfforddiant ar y safle a chydweithio fel tîm amlddisgyblaethol. Yn ychwanegol at y broblem hon, mae gan y cyfleusterau presennol amrywiaeth o broblemau (e.e. plymio, llwydni, amodau gwael, diffyg atgyweirio cyffredinol, ac ati), y mae angen eu hadnewyddu ar frys ac sydd ar hyn o bryd yn cael effaith negyddol ar les staff a chanfyddiad cleifion o ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu yno.

Manylion ymgysylltu

Cefnogaeth i'r egin syniad* 36 / 100% cefnogol

0 / 0% yn erbyn

Cyfanswm y gweithgarwch 5 o sylwadau

36 o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Helpwch ni: Syniadau eraill gan y dorf

- Clywsom gwpl o syniadau newydd gan y dorf, gan ymhelaethu ar y rhai a gynigiwyd i'w dilysu yma, neu dynnu sylw at faterion a oedd ar goll.
- Cyd-gynhyrchu dyluniad adeiladau newydd gyda defnyddwyr gwasanaeth a staff – roedd un syniad poblogaidd yn awgrymu bod cyd-gynhyrchu yn dod yn rhan o ddyluniad adeiladau newydd, gan ddefnyddio staff a defnyddwyr gwasanaeth/cleifion mewn prosiectau, gan geisio eu safbwynt ac o bosibl osgoi camgymeriadau costus.
- Datblygu timau cymunedol mwy integredig – un awgrym oedd datblygu timau integredig pellach o weithwyr cymdeithasol, therapyddion a nyrsys, dan arweiniad arweinwyr tîm cryf sy'n gallu gwneud yn siŵr bod pawb yn cydweithio'n effeithiol. Ar ben hynny, bydd cyflogi Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) i weithio ochr yn ochr â gofalwyr awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â diffyg ymddangosiadol mewn gofal ffurfiol yn y gymuned i gefnogi cleifion y tu allan i'r ysbyty ac atal derbyniadau. Gallai Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd helpu gyda gofal personol, meddyginiaeth a thasgau eraill, gan ryddhau staff iechyd a gofal cymdeithasol i gydweithio'n fwy effeithlon, dan oruchwyliaeth Nyrsys Ardal.
- Hyrwyddo goruchwyliaeth glinigol – cynigiodd rhai cyfranogwyr y dylid rhoi amser, fel rhan o'r rota, i adrodd yn ôl i staff a chaniatáu iddynt rannu meddyliau a phryderon a myfyrio ar agweddau da a drwg eu rolau. Dylai dewis o oruchwylwyr cymheiriaid fod ar gael i greu perthnasau dibynadwy a gwerthfawr a goruchwylwyr hyfforddi sy'n gallu defnyddio sgiliau hyfforddi i alluogi a hwyluso hunan-ddysgu.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Manylion ymgysylltu

Syniadau	4 Syniadau newydd
Cyfanswm y gweithgarwch	12 o sylwadau
	49 o bleidleisiau (gan gynnwys yn y sylwadau)

** yn seiliedig ar bleidleisiau gafodd eu bwrw am y syniad ei hun; mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu ehangach (nad ydynt yn nyrsio);*

Atodiad

Ystadegau cyfranogiad

Ystadegau cyfranogiad


Dadansoddiad manwl o ddata cyfranogiad Ein Sgwrs Fawr ar gyfer yr ail ymgysylltiad ar-lein

Ystadegau cyfranogiad

Yn Ôl Bwrdd lechyd

Mae'r siart isod yn dangos cyfansoddiad presennol, fesul Bwrdd lechyd, y ~220 o gyfranogwyr sydd wedi cymryd rhan weithredol (oren) yn *Ein Sgwrs Fawr* (drwy lenwi'r arolwg, postio syniadau a sylwadau, neu bleidleisio), a'r dadansoddiad o ymarferwyr nyrsio sy'n gysylltiedig â phob sefydliad yn unol â data poblogaeth (glas).

Cyfranogwyr a chofrestriadau, yn Ôl Bwrdd lechyd




Ystadegau cyfranogiad

Yn ôl band Staff

Mae'r siart ar y dde yn dangos gwneuthuriad presennol, yn ôl band staff, y ~220 o nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yng Nghymru a ymunodd â'r sgwrs (*oren*)

Fel yn yr ymgysylltiad cyntaf, mae cyfranogiad Bandiau 2, 3, a 5 yn wannach o'i gymharu â'u maint yn y gweithlu nyrsio. Wedi dweud hynny, mae cynrychiolaeth Band 5 wedi gwella ychydig yn ystod yr ymgysylltu.

Dadansoddiad o gyfranogwyr y sgwrs (220), yn ôl cyfran y band staff



* Mae'r ffigurau'n gyfredol pan ddaeth y sgwrs i ben, dydd Gwener, 31 Awst

Ystadegau cyfranogiad


Yn Ôl Maes Ymarfer

Mae'r siart ar y dde'n dangos cyfansoddiad, yn ôl Maes ymarfer, y ~220 o gyfranogwyr a ymunodd â'r sgwrs (**oren**), o'i gymharu â chyfran y meysydd ymarfer yn ôl data poblogaeth (**oren ysgafn**). Yn ddelfrydol, hoffem i'r gyfran o bob maes yn y sgwrs fod mor agos â phosibl at ddosbarthiad gwirioneddol y meysydd Nyrsio yn GIG Cymru – neu i'r rhifau hyn fod yn agos at ei gilydd.

Mae'r dadansoddiad yn ôl maes ymarfer yn y sgwrs hon yn debyg iawn i'r hyn a welsom yn yr ymgysylltu cyntaf, gyda'r ddau o fewn dim ond un pwynt % o'i gilydd.

Gan ystyried bod y cyfranogwyr sy'n rhan o'r categori *Arall* yn cynnwys pobl sy'n gweithio y tu allan i'r GIG yn ogystal â nyrsys sydd â nifer o arbenigeddau, rydym yn hyderus bod pob maes ymarfer yn cael ei gynrychioli'n ddigonol yn y sgwrs.

Dadansoddiad o gyfranogwyr y sgwrs, yn Ôl Maes ymarfer



* Mae'r ffigurau'n gyfredol pan ddaeth y sgwrs i ben, dydd Gwener, 31 Awst

Cwestiynau arolwg Gateway

Fe wnaethom ofyn i gyfranogwyr a ymunodd â'n *Sgwrs Fawr* werthuso'r balchder maent yn ei deimlo am eu proffesiwn, a fyddent yn argymhell nyrsio i eraill, ac, yn olaf, i sgorio lefel eu boddhad yn y swydd ar hyn o bryd.


Lle gwelsom y lefel uchaf o anfonlonrwydd oedd ynghylch y datganiad "Byddwn yn argymhell nyrsio fel proffesiwn yng Nghymru", gyda dros chwarter (29%) y cyfranogwyr yn ymateb yn negyddol.

Ar y llaw arall, roedd bron i 80% o'r 220 o gyfranogwyr a ymunodd â'r ail ymgysylltiad hwn yn ateb yn ffafriol i'r cwestiwn ynghylch a ydynt yn falch o fod yn rhan o'r proffesiwn nyrsio yng Nghymru.

O ran eu boddhad yn y swydd, roedd dros draean o'r ymatebwyr wedi'i sgorio'n gadarnhaol, ac roedd un o bob wyth (13%) wedi mynegi anfonlonrwydd, gyda'r gweddill rywle yn y canol.

Ychydig iawn o wyriad sydd yn y ffigurau hyn o'i gymharu â'r sgwrs gyntaf neu wrth edrych ar gyfranogwyr sydd ond wedi ymuno â'r ail ac nid yr ymgysylltiad cyntaf.

Sut ymatebodd y cyfranogwyr pan ofynnwyd iddynt...



* Mae ffigurau o dan 4% wedi cael eu cuddio er mwyn gwella darlennadwydd

Cwestiynau II arolwg Gateway

Meistrolaeth ar y Gymraeg

Gofynnwyd i gyfranogwyr yn Ein Sgwrs Fawr sgorio eu hyfedredd yn y Gymraeg.


Roedd llai nag un rhan o bump o'r cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn well na'r Saesneg, a dywedodd dros hanner (60% ar gyfartaledd) nad ydynt yn darllen, yn ysgrifennu nac yn deall yr iaith.

Er y gallai'r ymatebion fod yn siomedig, yn enwedig o ran strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae'r niferoedd hyn yn unol â'r boblogaeth ehangach, lle mae defnyddwyr Cymraeg rhugl a chymedrol yn cyfrif am rhwng 18% a 29%* o'r boblogaeth.

Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn debyg i'r rhai o'r ymgysylltiad ym mis Mai-Mehefin, a welodd gyfran ychydig yn uwch o siaradwyr lefel sgiliau cymedrol ar draul y rhai sy'n hyfedr neu sydd â meistrolaeth ddechreuol ar yr iaith.

*Mae cyfrifiad 2021 yn rhoi'r ffigur ar 18%, ac Arolwg Poblogaeth Blynnyddol 2022 y llywodraeth ar 29%”

Sut roedd y cyfranogwyr wedi ymateb pan ofynnwyd iddynt am eu hyfedredd yn y Gymraeg...




Mae'r siartiau isod yn dangos cyfansoddiad presennol y cyfranogwyr sydd wedi cymryd rhan weithredol yn *Ein Sgwrs Fawr* hyd yma, yn ôl nodwedd warchodedig – ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, neu a oes ganddynt anabledd corfforol neu gudd hirdymor.


Ar sail data 2021* gan Lywodraeth Cymru, rydyn ni'n gwybod bod yr ymarferwyr nyrsio yng Nghymru yn dod o gefndir ethnig gwyn (97%+) ac yn fenywod yn bennaf (96%+), felly rydyn ni'n hapus i weld cynrychiolaeth eithaf cryf gan aelodau o leiafrifoedd ethnig, dynion sy'n nyrsys, yn ogystal â chael safbwynt staff LGBTQ+ a'r rheini sy'n byw ac yn gweithio gydag anabledd.

Mae cyfansoddiad cyfranogwyr yn ôl nodwedd warchodedig wedi aros yn gyson â'r sgwrs ar-lein gyntaf, gyda gwahaniaethau bach iawn.


Cyfranogwyr yn ôl ethnigrwydd



Cyfranogwyr yn ôl cyfeiriadedd rhywiol



Cyfranogwyr yn ôl rhyw



Cyfranogwyr yn ôl anabledd cudd neu gorfforol

